

## CIC

Bydd CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Wener, Mai 12.

## Y Ffordd

Cynhelir cyfarfod nesaf 'Y Ffordd' yn festri Carmel nos Fercher, Mai 10. Bydd y manylion llawn am y pynciau y byddwn yn mynd i'r afael â nhw yn *Gronyn* yr wythnos nesaf.

## Cymorth Cristnogol

Mai 14-20

Mae gwir angen yr arian a gesglir yn ystod yr Wythnos i gefnogi gwaith yr elusen hon o estyn cymorth i bobl sy'n dioddef yn ein byd.

Ac yma y lleol, mae angen pobl i helpu gyda'r gwaith o gasglu o ddrws i ddrws os yw'r ymdrechion lleol i lwyddo.

Rhowch wybod os gellwch helpu.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Fawrth, Mai 2:** Cyfarfod Eglwys i aelodau Ebeneser am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mai 7:** Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Ebrill 30

5.00 p.m. - Mr Richard Lloyd Jones

#### Mai 7

3.30 p.m. - Y Gweinidog

#### Mai 14

5.00 p.m. - Miss Nerys Jackson

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Mai 7:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Euron Hughes. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Myfyr Roberts.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Mai 7:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Mai 7:** Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Dafydd Job, Bangor.

### CARMEL

**Dydd Llun, Mai 1:** Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.

**Nos Wener, Mai 5:** Dwylo Prysor am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Mai 7:** Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch. Gwasanaethir yn yr Oedfa Gymundeb am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog

### CYNLLUN EFE

**Dydd Llun, Mai 1:** Gan ei bod yn Wyl y Banc ni chynhelir y Cyfarfod Gweddi.

### Y mis nesaf - Llanberis

#### Ebrill 30

10.00 a.m. - Mrs Nerys Griffith  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Dewi Jones

#### Mai 7

10.00 a.m. - Mr Euron Hughes  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Mr Myfyr Roberts

#### Mai 14

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 727: Dydd Sul, 30 Ebrill, 2017

## Nid collwyr mohonom

Mae'n dymor etholiad. Yn Ffrainc, maen nhw ar ganol ethol Arlywydd. Yma, mae'n Etholiad y Cyngor Sir ddydd Iau. Ymhen mis cawn Etholiad Cyffredinol arall, ac fe ganwn:

*Daw hyfryd fis,  
Mehefin cyn bo hir,  
A dyma brysurdeb  
Etholiad yn ein tir.*

*Braf yn ein tir,  
Braf yn ein tir,  
Cyffro, cyffro, cyffro'r  
Etholiad yn ein tir.*

Yn anorod, fel ym mhob etholiad, bydd rhai yn ennill ac eraill yn colli.

Mae diwedd tymor yn agosáu i dimau pêl droed a rygbi. Ac fel ar ddiwedd pob tymor arall, bydd rhai yn ennill a rhai yn colli.

Profiad diflas ydi colli bob amser, boed ar gae chwarae neu ar lwyfan etholiad. Un perygl amlwg i Gristnogion yng Nghymru heddiw yw'r demtasiwn i gredu mai collwyr ydym. Mae cymaint ohonom wedi digalonni ac wedi mynd i feddwl nad oes unrhyw obaith y gwelwn ni ddim ond parhad y dirywiad yr ydym wedi bod yn dystion iddo dros ran helaethaf ein bywydau. Wnawn ni ddim ein diflasu ein gilydd heddiw trwy fanylu am y dirywiad hwnnw. Digon yw dweud bod y cyfan yn gwneud i ni deimlo'n aml bod tranc yr eglwysi'n anorod ac nad oes unrhyw

bosibilrwydd o gwbl y gwelwn ni ddim ond dirywiad pellach.

Beth bynnag a ddaw o'r gyfundrefn a etifeddwyd ac o'r eglwysi yr ydym yn aelodau ohonynt ar hyn o bryd, mae'n gwbl hanfodol fod disgyblion Iesu Grist yn cofio mai buddugwyr ydym. 'Ond i Dduw y bo'r diolch, yr hwn sy'n rhoi'r fuddugoliaeth i ni trwy ein Harglwydd Iesu Grist' (2 Cor. 15:57). Buddugoliaeth yw honno, meddai Paul yma, dros bechod, dros lygredigaeth a hyd yn oed dros farwolaeth.

Y Crist atgyfodedig yw ein gobaith a'n grym, a hynny nid yn unig ar gyfer y bywyd tragwyddol sydd i ddod ond ar gyfer bywyd yr Eglwys yn y byd sydd ohoni. Mae'r grym a gododd Iesu o'r bedd ar waith o hyd yn yr Eglwys trwy'r Ysbryd Glân. Ond rhan o dwyll y Diafol yw nad ydym yn deall hynny. A'r tristwch yw nid yn unig nad ydym yn credu y bydd Duw'n bendithio'i waith yn y dyfodol ond ein bod hefyd yn ddall i'r pethau y mae'n eu gwneud yn y presennol. Oherwydd nid stori methiant a dirywiad yn unig sydd i'w hadrodd heddiw, hyd yn oed yma yng Nghymru. Y mae Duw wrth ei waith, ac un arwydd grasol o hynny oedd yr holl bobl ifanc a welwyd yng ngŵyl LLANW yng Nghricieth wedi'r Pasg yn addoli ac yn tystio i'w ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Mae'r Efengyl yn dal yn rymus; mae'n dal i ddenu. Peidiwn â choelio'r lleisiau sy'n dweud mai collwyr sy'n glynu wrthi ac yn dal i arddel Y Beibl a'r Ffydd.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm

'Pwy a'm dwg i'r ddinas  
gaerog? Pwy a'm harwain i  
Edom? Onid ti, O Dduw, er  
iti'n gwrthod, a pheidio â mynd allan  
gyda'n byddinoedd?' (Salm 60:9-10).



**BEIBL BYW**

## Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00  
o'r gloch gan Mrs Nerys Griffith ac am  
5.00 o'r gloch gan Mr Dewi Jones. Bydd  
yr Ysgol Sul am 11.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn yn Neiniolen am 5.00  
o'r gloch gan Mr Richard Lloyd Jones.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am  
10.30 o'r gloch a gwasanaethir am 5.00  
o'r gloch gan y Parchg Euros Wyn Jones.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am  
10.00 a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch  
gan y Parchg Elwyn Jones.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Diolch i bawb am eu gwasanaeth heddiw.

## Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb  
fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n  
methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

## Bedydd

Yn ystod yr Oedfa Deulu yn Capel Coch  
y Sul diwethaf bedyddiwyd Greta Jo  
Jones, merch fach Jason a Lois Jones,  
Stryd Goodman, Llanberis. Roedd yn  
ddiwrnod arbennig iawn i Greta gan ei  
bod yn ben blwydd cyntaf arni ar ddydd  
ei bedydd. Dymunwn bob bendith i'r  
teulu, ac edrychwn ymlaen fel eglwys at  
gael rhan yn magwrfwa Gristnogol Greta.

## Cyfarfod Eglwysig

Cynhelir Cyfarfod Eglwysig arbennig i  
holl aelodau Ebeneser am 7.00 o'r gloch  
nos Fawrth, Mai 2. Fe ddylai pob aelod  
fod wedi derbyn llythyr erbyn hyn i'w  
hysbysu am y cyfarfod hwn, ac apelwyn  
ar bawb i ddod iddo os medrant.

## Cyfarfod Chwarter

Yn Salem Caernarfon y cynhaliwyd  
Cyfarfod Chwarter Annibynwyr Gogledd  
Arfon nos Fercher diwethaf, Ebrill 26.

Yn rhan gyntaf y cyfarfod cyflwynwyd  
adroddiad am gyflwr yr Achos yng  
nghapel Jerwsalem, Llanberis gan Miss  
Elisabeth Hughes. Penderfynwyd hefyd  
estyn cymorth ariannol i eglwysi at gost  
cynnal y Weinidogaeth. Mae hyn yn  
bosibl am fod y Cyfundeb wedi derbyn  
yn ddiweddar roddion ariannol wedi i  
eglwysi Bethania, Bethesda ac Ebeneser,  
Trefriw gael eu datgorffori ac i'r capeli  
gael eu gwerthu. Bydd peth o'r arian  
hwn yn cael ei ddefnyddio dros y pum  
mlynedd nesaf i helpu'r eglwysi. Ni fydd  
arian ar gael ar gyfer adeiladau, dim ond

at y Weinidogaeth. Bydd ffurflen yn cael  
ei pharatoi a'i hanfon at yr eglwysi cyn  
bo hir i'w gwahodd i wneud cais am yr  
help hwn yn unol â'r canllawiau sydd yn  
y ddogfen a gadarnhawyd gan y Cyfarfod  
Chwarter. Bydd modd i bedair eglwys  
Annibynnol yr Ofalaeth wneud cais am  
gymorth. Gan fod pob ceiniog yn help,  
mae'n rhaid canmol y Cyfundeb a diolch  
iddo am y penderfyniad hwn.

Yn ail ran y cyfarfod cafwyd adroddiad  
am yr Arolwg a wnaed yn ddiweddar gan  
Undeb yr Annibynwyr i waith y pymtheg  
Cyfundeb sy'n gysylltiedig â'r Undeb.  
Soniodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y  
Parchg Ddr Geraint Tudur am yr arolwg  
yn gyffredinol, a soniodd Dr Hefin Jones,  
Caerdydd am Gyfundeb Gogledd Arfon  
yn benodol. Yna cafwyd grwpiau trafod  
cyn i Geraint Tudur grynhoi'r cyfan ac  
annog y Cyfundeb i ddal i drafod ffyrdd  
o fywiogi a chryfhau eu gwaith.

## Swper Cymdeithas

Cynhaliwyd Swper Cymdeithas Undebol  
Deiniolen yng Nghlwb Golff Caernarfon  
nos Lun diwethaf. Gan i'r gŵr gwadd  
gael ei rwystro rhag dod atom, cafwyd  
cwis a baratowyd gan y Gweinidog.

Eleni eto, cawsom groeso cynnes a bwyd  
arderchog yn y Clwb Golff.

Diolch i Jane a Neville Thorman Jones ac  
Eirian Jones am drefnu'r cyfan unwaith  
eto. Diolch iddynt hefyd am eu gwaith  
dros y blynyddoedd. Bu Jane ac Eirian

yn Ysgrifennydd a Thrysorydd ers dros  
deuddeng mlynedd, ac fe lwyddwyd i  
gynnal y Gymdeithas ar hyd y cyfnod  
hwnnw oherwydd eu hymroddiad. Mae'r  
ddwy wedi penderfynu rhoi'r gorau i'r  
gwaith, a bydd rhaid cael swyddogion  
newydd er mwyn i'r Gymdeithas fedru  
dal i gyfarfod. Cytunodd Mrs Rhian  
Jones i wneud gwaith y Trysorydd, ond  
mae'n rhaid cael Ysgrifennydd cyn y  
medrwn drefnu rhaglen ar gyfer y tymor  
nesaf. Os oes rhywun yn barod i wneud  
y gwaith a wnewch chi roi gwybod i'r  
Gweinidog os gwelwch yn dda.

## SLAM

### (Sbort, Lles A Mwy)

Noson a diwrnod o chwaraeon ar gyfer  
pobl ifanc 11 i 14 oed yw SLAM. Fe'i  
cynhelir yng Nghanolfan Tŷ'n Y Nant,  
Abererch nos Wener a dydd Sadwrn,  
Mai 5-6.

Trefnwyd gan Andrew Settatee a'i  
frawd John. Beth yw SLAM?  
Sbort - chwaraeon o bob math  
Lles - anogaeth i fyw yniach  
A Mwy - cyfle i holi a dysgu am Dduw

Cost y penwythnos fydd £35. Croeso i  
bobl ifanc fynd yno nos Wener yn unig  
neu ddydd Sadwrn yn unig os na fedrant  
aros dros nos. Cewch ragor o fanylion  
gan y Gweinidog. Ffopniwch 01286  
872390.

## Penwythnos Plant yng Ngholeg y Bala

Nos Wener-Dydd Sul, Ebrill 12-14

Ar gyfer plant yr Ofalaeth - 8 i 12 oed

Enwau i'r Gweinidog yr wythnos hon os gwelwch yn dda